# Pa mor gyfreithlon mae’r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

## Trosolwg

Dyfernir bod Heddlu Dyfed-Powys yn dda o ran pa mor gyfreithlon ydyw yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae ein dyfarniad cyffredinol eleni yn fwy cadarnhaol nag y llynedd ar gyfer y meysydd cyfreithlondeb y gwnaethom eu hastudio. Dyfernir bod yr heddlu’n dda yn trin yr holl bobl y mae’n eu gwasanaethu â thegwch a pharch ac wrth sicrhau bod ei weithlu’n ymddwyn yn foesegol ac yn gyfreithlon. Fodd bynnag, dyfernir bod angen iddo wella rhai agweddau ar drin ei weithlu â thegwch a pharch.

Dyfernir bod Heddlu Dyfed-Powys yn dda ar y cyfan o ran pa mor gyfreithlon ydyw yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae HMICFRS yn falch o weld bod yr heddlu wedi gweithredu ar y rhan fwyaf o’n hargymhellion blaenorol ar gyfer gwella. Mae ei arweinwyr wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i sicrhau bod y gweithlu’n deall pwysigrwydd trin y bobl y mae’n eu gwasanaethu yn deg a chyda pharch. Mae swyddogion a staff yn deall rhagfarn anymwybodol a’r defnydd o bwerau gorfodaeth yn dda. Mae sgiliau cyfathrebu rhywfaint o’r gweithlu yn cael eu datblygu’n dda. Er bod gan yr heddlu drefniadau da ar waith i graffu ar ei ddefnydd o bwerau, a’i fod yn croesawu her i wella’r ffordd y mae’n trin pobl, mae’n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod ei graffu allanol wir yn cynrychioli’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu. Mae hefyd angen i’r heddlu wella’r ffordd mae’n cofnodi gwybodaeth stopio a chwilio.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gallu dangos bod ganddo ddiwylliant moesegol, sy’n helpu’r gweithlu i ymddwyn yn foesegol ac yn gyfreithlon. Mae’r heddlu hefyd yn dda yn nodi, yn ymateb ac yn ymchwilio i achosion o wahaniaethu. Mae’n hawdd i aelodau o’r cyhoedd gwyno os ydynt yn teimlo nad ydynt wedi derbyn lefel y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddi, ond mae angen i’r heddlu wneud mwy i ddiweddaru achwynwyr a’r rhai hynny sy’n destun cwynion. Er bod yr heddlu wedi methu â lleihau’r ôl-groniad o achosion fetio gan HMICFRS yn 2016, rydym yn fodlon bod cynllun yr heddlu i ddatrys y broblem erbyn 2019 yn realistig a bod modd ei gyflawni. Mae’r heddlu wrthi’n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy roi cymorth i’r rhai hynny sydd ei angen. Serch hynny, mae angen i’r heddlu wneud mwy i annog cynrychiolaeth o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), drwy recriwtio, cadw a hyrwyddo swyddogion a staff sy’n cynrychioli’r boblogaeth leol. Dylai hefyd sicrhau bod pawb yn elwa ar y broses arfarnu flynyddol newydd, a bod yr holl swyddogion a staff yn deall ac yn llwyr gefnogi’r prosesau hyrwyddo a dethol.